# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 5ed o Hydref 2021 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Ruby Williams, Gerallt Davies, Wyn Jones a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwyr Carys Morgan, Garym Roberts, Jocelyn Andrew, a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
Rhif Cais A210798.
Datblygiad preswyl i 24 o dai yn cynnwys tai fforddiadwy.
Penderfynwyd wrthwynebu'r cais yn unfrydol ar y sail fod yna nam sylweddol i'r beipen garthffosiaeth sy'n achosi ei chynnwys i lifo

mewn i erddi tai yn y gymdogaeth ac yn berygl i iechyd a diogelwch y trigolion a’r amgylchedd.

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y Cyng. Gerallt Davies am lwyddiannau y bachgen o Ffos-y-ffin, Josh Tarling yn y treialon amser yn y byd seiclo ble roedd wedi cipio’r fedal arian ym Mhencampwriaeth y Byd yn Flanders yn ddiweddar ac hefyd dod i’r brig mewn cystadlaethau rhyngwladol eraill. Penderfynwyd ddanfon llythyr i’w longyfarch ac hefyd i ddymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 10ed o Dachwedd.